OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 2439

# Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008

## RHAN 4

Y Gweithdrefnau a'r Cofnodion ynghylch Triniaeth Gymunedol

**Y gweithdrefnau ar gyfer, a chofnodion ynghylch, gorchmynion triniaeth gymunedol**

**16.**—(1) At ddibenion gwneud gorchmynion triniaeth gymunedol o dan adran 17A ac ychwanegu amodau atynt o dan adran 17B—

(a) rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol o dan adran 17A(1) fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen CP 1;

(b) rhaid i'r amodau a bennir yn y gorchymyn o dan adran 17B(3) ac unrhyw amodau eraill o dan adran 17B(2) fod ar y ffurf gymwys a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen CP 1;

(c) rhaid i unrhyw ddatganiad gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy a wneir o dan adran 17A(4) neu, yn ôl y digwydd, adran 17B(2) fod ar y ffurf gymwys a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 1;

(ch) rhaid i unrhyw orchymyn triniaeth gymunedol gael ei ddarparu i reolwyr yr ysbyty cyfrifol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i unrhyw amrywiad o'r amodau a bennir mewn gorchymyn triniaeth gymunedol o dan adran 17B(4) gael ei gofnodi ar y ffurf a osodir yn Ffurflen CP 2 a rhaid darparu'r gorchymyn sy'n amrywio'r amodau yn y modd hwnnw i reolwyr yr ysbyty cyfrifol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.